OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 282 (Cy.46)

Y GWASANAETHIECHYD GWLADOL, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*3 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Chwefror 2012*
Yn dod i ry - - - -	*29 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5(1) a (2) a 10(2) o Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Chwefror 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen, yn y golofn ar yr ochr dde (Awdurdodau Lleol) yn y testun Cymraeg, gyferbyn â "Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr" yn y golofn ar yr ochr chwith (Bwrdd Iechyd Lleol), ar ôl "Sir y Fflint" mewnosoder ", Gwynedd".

Dirymu

3. Mae rheoliad 9(7) o Reoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011 wedi ei ddirymu.

(**1**) 2010 mccc 5.
(**2**) O.S. 2011/2939 (Cy.315).